# Rysáit torth fflat sylfaenol

I wneud 8 torth fflat

## Cynhwysion

- 400g blawd codi
- 1/2 llwy de o halen
- 250ml o ddŵr cynnes
- 3 llwy fwrdd o olew had rêp

## Dull:

1. Pwyswch y cynhwysion. Manteisiwch ar y cyfle i edrych ar y glorian a gweithio allan lle mae angen i'r deial fod ar gyfer pwysau pob cynhwysyn.
2. Paratowch y cynhwysion llysiau. Dangoswch sut i'w golchi a'u torri'n ddiogel.
3. Cyfunwch y blawd a'r halen mewn powlen fawr.
4. Ychwanegwch eich cynhwysion sych ychwanegol.
5. Ychwanegwch yr olew at eich cymysgedd.
6. Ychwanegwch y dŵr claear, un llwy fwrdd ar y tro. Cymerwch ofal i beidio â gwneud eich toes yn rhy ludiog!
7. Ychwanegwch eich cynhwysion gwlyb.
8. Cymysgwch bopeth at ei gilydd nes bod yr holl gynhwysion wedi'u cyfuno'n dda a ffurfio toes.
9. Ar arwyneb â blawd arno, tylinwch y toes am 2-3 munud.
10. Rhannwch y toes yn 8 pêl a rholiwch bob un yn unigol. Ceisiwch sicrhau fod bob torth fflat tua maint plât cinio.
11. Mewn padell ffrio fawr, cynheswch lwy de o olew a choginiwch bob torth fflat am 1 munud bob ochr ar wres canolig nes eu bod yn frown euraidd.

© NFU 2018 – Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r adnoddau hyn at ddefnydd addysgol yn unig.